# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Gwynfa**

**Cartref Preswyl Gwynfa**
**Ffordd y Gogledd**
**Caernarfon**
**LL55 1BE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

## 14 Mehefin 2022

***Llywodraeth Cymru ©  Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Preswyl Gwynfa

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Cartref Preswyl Gwynfa |
| Lleoedd cofrestredig | 23 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 18 Ionawr 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nid dyma oedd ffocws yr arolygiad hwn |

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws, a oedd yn canolbwyntio ar feysydd o'r gwasanaeth y nodwyd bod angen gweithredu arnynt â blaenoriaeth yn yr arolygiad diwethaf. Mae'r gwelliannau gofynnol wedi'u gwneud gan y darparwr gwasanaeth i sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae'r rhyngweithio rhwng y bobl, y tîm rheoli a'r staff gofal yn gynnes, yn ddymunol ac yn barchus. Bellach mae gan y staff gofal fynediad at wybodaeth gyfredol am anghenion y bobl oherwydd bod eu cynlluniau personol yn gyfredol. Mae'r staff gofal yn dangos dealltwriaeth dda o anghenion gofal pob person ac unrhyw risgiau a nodwyd i'w llesiant.

Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr. Mae prosesau datblygu staff mewn perthynas â sesiynau goruchwylio ac arfarnu bellach ar waith.

## Llesiant

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Mae cynlluniau personol yn gyfredol ac yn adlewyrchu anghenion gofal a chymorth cyfredol y bobl yn gywir. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer diogelu'r bobl a'r staff gofal. Gwelsom fod ceisiadau am gymorth, i wneud tasgau ynghyd â chefnogaeth emosiynol, yn cael ymateb prydlon caredig a thosturiol.

Mae rheolaeth o'r dogfennau wedi gwella. Mae'r cofnodion yn drefnus ac ar gael yn rhwydd. Mae'r oruchwyliaeth o'r dogfennau diogelwch tân wedi'i chryfhau. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau, ac yn teimlo eu bod yn cael yr hyfforddiant cywir i'w galluogi i wneud eu gwaith.

## Gofal a Chymorth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Cymerwyd camau i sicrhau cydymffurfedd yn dilyn yr arolygiad diwethaf mewn perthynas ag adolygu cynlluniau personol. Mae'r staff gofal yn sylwgar, yn gwrtais ac yn cefnogi'r bobl sy'n byw yng Ngwynfa. Yn yr arolygiad diwethaf, gwnaethom gyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth i'r darparwr cofrestredig gan nad oedd cynlluniau personol y bobl yn cael eu hadolygu'n gyson. Mae'r dogfennau gofal bellach yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â'r rheoliadau, sy'n golygu bod y staff gofal yn ymwybodol o unrhyw ddiweddariadau pwysig am iechyd a llesiant y bobl. Os bydd newidiadau sylweddol yn anghenion person, caiff cynlluniau ac asesiadau risg eu diweddaru mewn modd amserol. Nodwyd gennym y dylai cyfranogiad y bobl yn eu hadolygiadau gael ei nodi'n well, gan gynnwys aelodau teulu lle bo modd.

Caiff meddyginiaethau'r bobl eu rheoli a'u rhoi yn ddiogel. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i dderbyn eu meddyginiaeth fel y rhagnodir. Mae meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Mae’r staff gofal yn cael hyfforddiant meddyginiaeth ac mae asesiadau ymarferol bellach wedi'u cwblhau i sicrhau eu bod yn parhau'n gymwys i gyflawni'r dasg hon.

## Yr Amgylchedd

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan y gwasanaeth lyfr ymwelwyr wedi'i gwblhau yn unol â threfniadau diogelwch tân. Mae dogfennau ar waith ac mae'r staff yn cwblhau gwiriadau diogelwch tân. Mae'r polisi tân a'r asesiad risg wedi'u diweddaru i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r gwelliannau gofynnol i ddiogelwch tân wedi'u gwneud gan y darparwr cofrestredig er mwyn cydymffurfio.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae’r gwaith o reoli dogfennau yn y gwasanaeth wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r cofnodion yn ddiogel, yn gyfredol ac mewn trefn dda. Mae ffeiliau staff wedi'u trefnu'n well, yn hawdd eu defnyddio ac yn cynnwys y gwiriadau diogelwch angenrheidiol, gan sicrhau addasrwydd y staff i weithio gydag oedolion agored i niwed.

Cymerwyd camau i sicrhau cydymffurfedd yn dilyn yr arolygiad diwethaf mewn perthynas â sesiynau goruchwylio ac arfarniad blynyddol. Siaradodd y tîm staff yn gadarnhaol am y rheolwr gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol. Mae gan y ddau bresenoldeb amlwg yn y gwasanaeth a chadarnhaodd y staff gofal eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn mwynhau eu gwaith. Ers ein harolygiad diwethaf, mae'r staff gofal wedi derbyn sesiynau goruchwylio ac arfarniad blynyddol yn eu rôl i'w helpu i fyfyrio ar eu harfer ac i sicrhau bod eu cymhwysedd proffesiynol yn cael ei gynnal. Mae cofnodion hyfforddiant wedi'u diweddaru i sicrhau bod y staff gofal yn gallu cyflawni gofynion eu rôl a bodloni anghenion yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |
| 16 | Mae’r darparwr wedi methu â sicrhau bod cynlluniau personol ac asesiadau risg pobl yn cael eu hadolygu’n barhaus, a’u bod yn cael eu diwygio a’u datblygu i adlewyrchu newidiadau i anghenion gofal a chymorth a chanlyniadau personol yr unigolyn, gan gynnwys unrhyw newidiadau mewn anghenion gofal unigol. | Cyflawnwyd |
| 36 | Mae’r darparwr wedi methu â sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn sesiynau goruchwylio un i un neu arfarniad blynyddol i'w helpu i fyfyrio ar eu harfer a rhoi adborth ar eu perfformiad. | Cyflawnwyd |
| 57 | Mae'n rhaid i’r darparwr sicrhau bod unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch unigolion yn cael eu nodi a’u | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | lleihau cyn belled ag y bo’n rhesymol ymarferol. | |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 19 | Nid yw'r darparwr wedi paratoi canllaw ysgrifenedig i'r gwasanaeth. | Adolygwyd |
| 58 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod arferion meddyginiaeth, yn arbennig y broses o gofnodi ac archwilio meddyginiaeth, yn cael eu darparu yn unol â'i bolisi a gweithdrefnau. | Adolygwyd |
| 27 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod polisi a gweithdrefn diogelu'r gwasanaeth wedi'u halinio i'r ddeddfwriaeth, canllawiau cenedlaethol a gweithdrefnau diogelu oedolion lleol presennol. | Adolygwyd |
| 80 | Nid oes gan y darparwr drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod adborth yn cael ei geisio gan y bobl sy'n byw yn y cartref, eu cynrychiolwyr, a’r staff a gyflogir yn y gwasanaeth. Mae'n rhaid dadansoddi a chynnwys yr adborth hwn gyda'r adroddiad adolygu ansawdd gofal. Mae'n rhaid adolygu ansawdd y gofal a chymorth mor aml ag sy’n ofynnol ond bob chwe mis o leiaf. | Adolygwyd |
| 35 | Nid oes gan yr unigolyn cyfrifol dystysgrif ddilys a chyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Cyflawnwyd |
| 59 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod yr holl gofnodion yn ddiogel a chyfredol ac mewn trefn dda. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 29/07/2022